

Rhif 381 – Rhyddiaith Bl 12 a 13 – Perthyn

Beirniad – Sian Fitzgerald

Daeth 34 stori i law a rhaid canmol pob ymgeisydd am gystadleuaeth gref. Mae dawn dweud yma! Ysbrydolwyd ymgeiswyr gan themâu megis marwolaeth, cymhlethdod teuluol a digwyddiadau pwysig yn hanes Cymru. Cyflwynwyd amrywiol dechnegau llenyddol gan gynnwys straeon byrion, portreadau, dyddiaduron, pennod o nofel a 'blog'. Braff fyddai clywed mwy o leisiau ein pobl ifanc gan mai prin iawn oedd y straeon amdanynt hwy eu hunain a'u cenhedlaeth. Byddwch yn fwy hyderus i adrodd eich straeon eich hunain da chi!

Rwy'n ymwybodol iawn mai mympwy beirniad sydd wedi dewis y tri ddaeth i'r brig. Byddai beirniad arall o bosib wedi dewis tair stori wahanol – yn bendant roedd digon o ddewis hefo sawl stori yn serennu. Roedd stori deimladwy Tudor yn agos iawn i'r brig a llawer i stori yn aros yn y cof - portread Meg o'i thaid, disgrifiad Lleuad Wen o fod yn berthyn i deulu di Gymraeg yn ogystal â theulu diwylliannol, dirgelwch straeon Magi a Jones, iaith gyfoethog Fflam, tristwch gwerthu fferm stori Meg, colled Gwenan a dehongliad gwreiddiol Celt, Efan a Golau Annwyl. Daliwch ati oll – ond y tro yma dwi'n falch o allu dyfarnu y wobr gyntaf i Draenog, am stori hanesyddol hynod aeddfed a deallus sydd wedi ei lleoli ym Mharis. Yr ail wobr i Nokia, am gyflwyno llais dy genhedlaeth mewn arddull mor wreiddiol, ac yn drydydd, Ffrwd, am dy stori afaelgar a chyfoethog dy ddehongliad. Gwych iawn, dwi'n rhagweld y byddai yn darllen mwy o'ch gwaith yn y dyfodol!